**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**RHESTR FLYNYDDOL O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU AR GYFER 2025-26**

Mae'r Cynllun yma o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i daliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig awdurdodau lleol.

## 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Telir cyflog sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r hyn sy'n cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Os ydy cyfnod swyddogaethau Aelod yn dechrau neu'n dod i ben ar ddyddiad nad yw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn ariannol, bydd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu ar sail pro-rata.

1.4 Fydd dim mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

## 2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

2.1 Bydd Aelodau sy'n ymgymryd â swyddogaethau penodol yn derbyn Cyflog Uwch, fel sy'n cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r hyn sy'n cael ei bennu gan Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Fydd dim mwy nag un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni chaiff Aelod o'r Awdurdod dderbyn Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig.

2.5 Mae pob Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig yn cynnwys Cyflog Sylfaenol.

2.6 Does dim hawl i dalu Cyflog Uwch i fwy na nifer yr Aelodau sy wedi'i phennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei adroddiad blynyddol ac all hynny ddim bod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd â Chyflog Uwch sy'n cyflenwi dros dro ar gyfer absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

2.7 Does **dim** hawl gan Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Cyflog Uwch Band 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu Fand 2 (Aelod Gweithredol) i dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y mae ef/hi wedi'i (h)enwebu ar ei gyfer.

2.8 Os ydy cyfnod Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben ar ddyddiad nad yw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn ariannol, bydd y cyflog yn cael ei dalu ar sail pro-rata.

## 3. Dewis Peidio â Derbyn Lwfans

3.1 Mae modd i Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Priodol yr Awdurdod, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun yma o'r dyddiad sy wedi'i nodi yn yr hysbysiad.

## 4. Atal Aelod

4.1 Os ydy Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau o dan y Ddeddf honno, bydd y rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy iddo/iddi yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod am y cyfnod atal hwnnw (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2 Os yw Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch yn cael ei atal, neu'n cael ei atal yn rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Cyflog Uwch yr Aelod drwy gydol yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r ataliad rhannol yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad, yna fe gaiff yr Aelod hwnnw gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffïoedd

5.1 Os yw cyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei dalu/thalu i Aelod o'r Awdurdod, neu Aelod Cyfetholedig, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:-

(a) wedi ei atal, neu wedi ei atal yn rhannol, rhag dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod (neu'r Aelod Cyfetholedig) hwnnw, yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;

(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu

(c) heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn unrhyw ffordd arall mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno o'r lwfans, sy'n ymwneud â chyfnod o'r fath, yn cael ei ad-dalu.

## 6. Taliadau

6.1 Bydd pob lwfans yn cael ei dalu gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen mewn rhandaliadau un rhan o ddeuddeg o hawl flynyddol yr Aelod ar, neu o gwmpas, y 15fed o bob mis.

6.2 Lle mae taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl cyflog, lwfans neu ffi, bydd yr Awdurdod yn gofyn iddo/iddi ad-dalu'r gordaliad hwnnw.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i ddidyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

## 7. Ad-dalu costau gofal

7.1 Bydd ad-daliad costau gofal yn cael ei dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofal dros blant neu oedolion dibynnol neu ofyniad gofal personol, os yw'r

Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath tra ei fod yn ymgymryd â dyletswyddau Cyngor 'cymeradwy'.

7.2 Mae'r ad-daliad costau gofal yn berthnasol i blant sy'n 15 oed neu'n iau, ac unrhyw bersonau eraill lle y gall yr Aelod, neu'r Aelod Cyfetholedig, ddangos bod angen gofal. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, os yw'r Aelod yn gallu dangos bod angen trefniadau gofal ychwanegol.

7.3 Caiff Aelodau cymwys hawlio ad-daliad costau gofal am gostau gwirioneddol a chostau drwy dderbynebau hyd at uchafswm sydd ddim yn uwch na'r hyn sy'n cael ei bennu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel sy'n cael ei nodi yn **Atodlen 1**. Dylai pob cais am ad-daliad costau gofal gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd, gan roi manylion ynglŷn ag amseroedd, dyddiadau, a'r rhesymau dros gyflwyno'r cais. Mae derbynebau yn ofynnol ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae Aelodau â'r hawl i gael cyfnod o absenoldeb teuluol, o dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013. Yn ystod y cyfnod yma, os ydyn nhw'n bodloni'r amodau rhagnodedig, bydd hawl ganddyn nhw i fod yn absennol o gyfarfodydd awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol, bydd gan yr Aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol waeth beth fo'u cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

8.3 Pe byddai deiliad cyflog uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, caiff barhau i dderbyn ei gyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod hi'n angenrheidiol i wneud penodiad amgen i gyflenwi yn ystod absenoldeb teuluol deiliad cyflog uwch, bydd yr Aelod sy'n cyflenwi yn gymwys ar gyfer derbyn cyflog uwch, os dyna yw penderfyniad yr awdurdod.

8.5 Os yw talu'r Aelod sy'n cyflenwi yn golygu y bydd yr awdurdod yn mynd heibio i'w uchafswm o gyflogau uwch, bydd hawl mynd dros yr uchafswm hwnnw am y cyfnod yma.

## 9. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

9.1 Bydd ffi ddyddiol yn cael ei thalu i Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod), os mai Aelodau Cyfetholedig statudol â hawliau pleidleisio ydyn nhw.

9.2 Bydd y taliadau yma wedi'u capio ar uchafswm o'r hyn sy'n gyfwerth â 10 diwrnod cyfan y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y bo unigolyn yn gyfetholedig iddo neu yn gymwys i'w fynychu.

9.3 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod, amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd, a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

9.4 Bydd y Swyddog Monitro (sef y "swyddog priodol" dynodedig) yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod. Ar sail y penderfyniad yma y bydd y ffi yn cael ei thalu.

9.5 Bydd modd i'r Swyddog Monitro bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod cyfan, a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail hynny, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

9.6 Diffiniad cyfarfod hanner diwrnod yw hyd at 4 awr.

9.7 Diffiniad cyfarfod diwrnod cyfan yw dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi ar gyfer diwrnodau cyfan a hanner diwrnodau ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel sy'n cael ei phennu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi ar gyfer diwrnodau cyfan a hanner diwrnodau ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel sy'n cael ei phennu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

### 10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Caiff Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer ‘dyletswyddau cymeradwy’ fel sy'n cael eu nodi yn **Atodlen 2**. Pan fydd Aelodau yn teithio ar fusnes yr Awdurdod, mae disgwyl iddyn nhw deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol. Wrth asesu cost effeithiolrwydd, bydd sylw yn cael ei roi i'r amser teithio. Mae'n bosibl y bydd swm priodol yn cael ei dynnu o hawl Aelod sydd ddim yn defnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol.

10.3 Dylai Aelodau rannu trafnidiaeth lle bo hynny'n bosibl.

10.4 Dylai'r pellter y mae'r cais yn ymwneud ag ef fod y daith fyrraf resymol ar y ffordd, o'r man cychwyn i'r man lle bydd y ddyletswydd yn cael ei chyflawni ac, yn yr un modd, o leoliad y ddyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Mae'r cyfraddau ar gyfer Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth i Aelodau yn cael eu nodi yn **Atodlen 3** a gall y rhain gael eu newid gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei adolygiad blynyddol.

10.6 Os yw Aelod yn cael ei atal neu ei atal dros dro o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau o dan y Ddeddf honno, bydd unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â chyfnod o ataliad neu ataliad rhannol, yn cael eu dal yn ôl gan yr Awdurdod.

## 11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw y dylai'r cyfraddau teithio uchaf fod y cyfraddau sy'n cael eu nodi gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau, ynghyd ag unrhyw atodiad teithwyr.

11.2 Mae'r cyfraddau fesul milltir ar gyfer cerbydau preifat, fel sy'n cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'u nodi yn **Atodlen 3.**

11.3 Lle bo Aelod yn defnyddio'i gerbyd preifat at ddibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd fod wedi ei yswirio ar gyfer defnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol ar gyfer yr Awdurdod ar gais.

## 12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

12.1 **Teithio ar Drenau/Bysiau**

Bydd tocynnau trên yn rhai ail ddosbarth, oni bai fod tocynnau dosbarth cyntaf yn cael eu hawdurdodi.

Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau angenrheidiol ar gyfer trenau a bysiau i Aelodau cyn teithio. Os oes angen ar Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, er mai digwyddiad annhebygol fyddai hynny, bydd y swm yn cael ei ad-dalu o ddangos y tocyn a gafodd ei ddefnyddio, neu dderbynneb.

12.2 **Teithio mewn Tacsi**

Bydd costau tacsis dim ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi ei awdurdodi ar gyfer achosion brys, lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus resymol ar gael, neu fod angen personol penodol ar Aelod. Bydd costau yn cael eu had-dalu o ddangos derbynneb yn unig.

12.3 **Teithio i Wledydd Tramor**

Bydd teithio i wledydd tramor dim ond yn cael ei ganiatáu lle mae hynny'n cael ei awdurdodi gan y Prif Weithredwr. Y Gwasanaethau Democrataidd fydd yn gwneud y trefniadau teithio a llety.

12.4 **Treuliau Teithio Eraill**

Bydd Aelodau â'r hawl i gael ad-daliadau am ffioedd tollau, ffioedd parcio, cadw cerbydau mewn garej dros nos, a threuliau teithio angenrheidiol cysylltiedig eraill. Bydd costau yn cael eu had-dalu o ddangos derbynneb yn unig.

## 13. Llety Dros Nos

13.1 Bydd aros dros nos dim ond yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu ragor, neu fod pellter y lleoliad yn golygu y byddai teithio yn gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i arosiadau dros nos gael eu hawdurdodi gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Y Gwasanaethau Democrataidd fydd yn trefnu'r llety dros nos. Lle bo hynny'n bosibl, bydd costau'r llety dros nos yn cael eu talu ymlaen llaw neu eu hanfonebu.

13.3 Bydd trefnu llety dros nos yn uniongyrchol gan Aelod dim ond yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng. Bydd y costau yn cael eu had-dalu o ddangos derbynneb yn unig ac ar lefel sy'n cael ei hystyried yn dderbyniol, ac sydd ddim yn uwch na'r cyfraddau sy'n cael eu nodi yn **Atodlen 3**.

## 14. Lwfans Cynhaliaeth

14.1 Mae'r gyfradd ar gyfer cynhaliaeth ddyddiol, i dalu costau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na fydd hwnnw'n cael ei ddarparu yn rhan o'r llety dros nos), yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**.

Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr, ac mae modd ei hawlio am unrhyw bryd o fwyd sy'n berthnasol, o ddangos derbynneb/derbynebau.

14. 2 Does dim darpariaeth ar gyfer hawliau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi penderfynu na ddylai dyletswyddau etholaeth gael eu hystyried yn ddyletswyddau i'w cymeradwyo at ddibenion hawlio lwfans teithio.

**15. Hawliadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid cyflwyno hawliad ar gyfer lwfansau teithio a chynhaliaeth mewn ysgrifen o fewn 5 diwrnod i ddiwedd y mis calendr y mae'r hawl am lwfans yn berthnasol iddo, a rhaid ei gyflwyno gyda derbynebau perthnasol.

15.2 Telir lwfansau gan y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen drwy gredyd banc uniongyrchol.

**16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau cymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**17. Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod**

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl bod gan Aelodau gymorth digonol i gynnal eu dyletswyddau a bod y cymorth wedi'i ddarparu yn ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu'r lefel o gymorth sydd ar gael i Aelodau a mynd â chynigion am gymorth rhesymol at y cyfarfod o'r Cyngor Llawn.

17.2 Dylai pob Aelod ac Aelod Cyfetholedig gael manteisio ar gyfleusterau digonol dros y ffôn, e-bost a'r we i gael mynediad electronig at yr wybodaeth berthnasol.

17.3 Dylai cymorth o'r fath fod heb gost i unrhyw Aelod. Does dim hawl didynnu o gyflogau Aelodau fel cyfraniad tuag at gost cymorth mae'r Awdurdod wedi penderfynu ei fod yn angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd Aelodau.

**18. Cydymffurfio**

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â monitro a chyhoeddi'r taliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel sy'n cael eu nodi yn **Atodlen 4.**

**Hoffen ni atgoffa Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig bod hawliadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

**ATODLEN 1**

**RHESTR FLYNYDDOL O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER 2025-26**

**AELODAU SYDD Â'R HAWL I GAEL CYFLOG SYLFAENOL**

Aelodau etholedig canlynol yr Awdurdod:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addiscott L | 19,771 | Owen W | 19,771 |
| Ashford M | 19,771 | Parkin D | 19,771 |
| Barton J | 19,771 | Powderhill S | 19,771 |
| Bevan R | 19,771 | Powell M | 19,771 |
| Binning P | 19,771 | Preedy C | 19,771 |
| Bonetto J | 19,771 | Rees, W | 19,771 |
| Bradwick S | 19,771 | Roberts A | 19,771 |
| Brencher J | 19,771 | Rogers A | 19,771 |
| Cook J | 19,771 | Smith J | 19,771 |
| Davies S J | 19,771 | Stacey G | 19,771 |
| Dennis A | 19,771 | Stephens B | 19,771 |
| Dunn V | 19,771 | Trask S | 19,771 |
| Dunning E | 19,771 | Treeby W | 19,771 |
| Elliot J | 19,771 | Turner J | 19,771 |
| Ellis A | 19,771 | Warren G | 19,771 |
| Ellis L | 19,771 | Webb K | 19,771 |
| Emanuel S | 19,771 | Williams D | 19,771 |
| Evans D | 19,771 | Williams G | 19,771 |
| Evans P | 19,771 | Williams T | 19,771 |
| Evans R | 19,771 | Wood D ** Hyd at 4 Mehefin 2025 | 19,771 |
| Grehan D | 19,771 | Yeo R | 19,771 |
| Gronow H | 19,771 | | |
| Hickman S | 19,771 | | |
| Holmes G | 19,771 | | |
| Hopkins G | 19,771 | | |
| Hughes G W | 19,771 | | |
| Hughes W | 19,771 | | |
| Johnson K | 19,771 | | |
| Jones O D | 19,771 | | |
| Jones G | 19,771 | | |
| Jones O G | 19,771 | | |
| Lewis W | 19,771 | | |
| Lisles C | 19,771 | | |
| Maohoub M | 19,771 | | |
| Morgan N | 19,771 | | |
| Morgans S | 19,771 | | |

**HAWLIAU CYFLOGAU UWCH**
**(gan gynnwys cyflog sylfaenol)**

| | **SWYDD** | **AELOD** | **SWM BLYNYDDOL** |
|---|---|---|---|
| **1** | Arweinydd a Chadeirydd y Cabinet | Morgan A (OBE) | £74,141 |
| **2** | Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo’r Cyngor | Webber M (BEM) | £51,899 |
| **3** | Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Caple G | £44,485 |
| **4** | Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cynhwysiant a'r Gymraeg | Lewis R | £44,485 |
| **5** | Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau | Harris R | £44,485 |
| **6** | Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu | Norris M | £44,485 |
| **7** | Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden | Crimmings A | £44,485 |
| **8** | Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfranogiad Pobl Ifainc a Newid yn yr Hinsawdd | Leyshon C | £44,485 |
| **9** | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | Edwards J | £29,657 |
| **10** | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant | Middle C | £29,657 |
| **11** | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant | Evans Sera | £29,657 |
| **12** | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned | Tompkinson L | £29,657 |
| **13** | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu | Rees S | £29,657 |
| **14** | Cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau | Williams R | £29,657 |
| **15** | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Fox A S | £29,657 |
| **16** | Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Jones W | £29,657 |
| **17** | Arweinydd yr Wrthblaid | Morgan K | £29,657 |
| **18** | Llywydd y Cyngor | Davis R | £29,657 |
| **19** | | | |

Mae modd talu uchafswm o 19 o gyflogau uwch ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac ni aethpwyd ymhellach na'r ffigwr yma.

**HAWLIAU I GYFLOG DINESIG (gan gynnwys cyflog sylfaenol)**

Pennaeth Dinesig (Maer) – Evans, Sheryl - £29,657

Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer) – £0 (Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd cydnabyddiaeth ar gyfer y rôl yma)

**CADEIRYDDION/IS-GADEIRYDDION Y CYDBWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU**

Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf: Hughes G W (£9,886)

Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cydbwyllgor Corfforedig: Bevan R (£9,886)

**HAWL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL**

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau – Bowen, D - £268 Ffi Ddyddiol - £134 ½ Diwrnod – cyfradd fesul awr £33.50

Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant, Pwyllgor Archwilio

**Safonau:**
- Thomas J (Aelod Annibynnol)
- John H (Aelod Annibynnol)
- Cynrychiolydd Cynghorydd Cymuned – Thomas C

£210 ffi ddyddiol
£105 ffi am hanner diwrnod
£26.25 - cyflog fesul awr

**Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant:**

- Mr Paul Booth
- Mr Spencer Jones
- Mrs Tracy Sweetland-Hodges
- Mrs Jenna O'Sullivan

£210 - Ffi ddyddiol
£105 - Ffi am hanner diwrnod
£26.25 - Cyflog fesul awr

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:**

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio - Jones C. £268 - Ffi Ddyddiol, £134 am hanner diwrnod

Aelodau lleyg eraill - Roszkowski J, Jehu M
£210 - Ffi ddyddiol
£105 - Ffi am hanner diwrnod
£26.25 - Cyflog fesul awr

Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau cyffredin o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned Ddim yn berthnasol £238 - Ffi Ddyddiol, £119 am hanner diwrnod, £29.75 fesul awr

**AD-DALU COSTAU GOFAL**

Bydd y Cyngor yn talu tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (gofal a ddarperir gan gynhalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:

- Ffurfiol (wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) - costau gofal i'w talu yn unol â'r dystiolaeth a ddarperir.

- Costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n cyfateb i Gyflog Byw Gwirioneddol y DU pan fydd y costau'n codi. Rhaid i hyn fod ar gyfer y costau ychwanegol

y mae Aelodau'n eu talu i'w galluogi i gyflawni gwaith swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy.

Rhaid i daliadau fod yn gysylltiedig â gwaith swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud pan gaiff derbynebau eu cyflwyno gan y cynhaliwr (gofalwr).

## CYMORTH I AELODAU ETHOLEDIG - YR HYN SY'N CAEL EI DDARPARU YN NHERMAU FFÔN, GWE AC E-BOST

### Gwasanaeth Ffôn i Aelodau Etholedig-

Bydd holl Aelodau'r Cyngor yn derbyn ffôn symudol (am ddim) er mwyn ymateb i ofynion uwch o ran seiberddiogelwch a galluogi Aelodau i gael mynediad at Borth yr Aelodau a gyflwynwyd yn ddiweddar.

### Mynediad at negeseuon e-bost i Aelodau Etholedig

Mae Aelodau Etholedig yn cael offer a meddalwedd TGCh wedi'u hariannu i'w cynorthwyo â'u dyletswyddau. Mae'r ddarpariaeth yma yn cynnwys dyfais fel iPad neu gliniadur Windows sydd â mynediad at negeseuon e-bost, y rhyngrwyd a phecyn Office 365 sy'n cynnwys 'Word', 'Excel' a 'Powerpoint' ynghyd â gyriant diogel. Mae argraffyddion ar gael ar gais.

**ATODLEN 2**

**Dyletswyddau cymeradwy**:-

- presenoldeb mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo, neu gyfarfod o unrhyw bwyllgor i gorff o'r fath;

- presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall y mae ei gynnal wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod, neu gan bwyllgor o'r Awdurdod, neu gyd-bwyllgor ac un neu ragor o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r Cabinet, neu mewn cysylltiad â'r dibenion hynny;

- dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â gorchymyn sefydlog sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;

- dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Awdurdod sy'n rhoi hawl i'r Awdurdod neu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo archwilio neu awdurdodi archwilio mangre;

- presenoldeb mewn unrhyw achlysur hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr Awdurdod, neu'i Gabinet;

## ATODLEN 3

### Cyfraddau fesul milltir

- Cerbydau modur preifat o bob maint
- Hyd at 10,000 o filltiroedd – 45 ceiniog y filltir
- Dros 10,000 o filltiroedd – 25 ceiniog y filltir
- Beiciau Modur Preifat – 24 ceiniog y filltir
- Beiciau – 20 ceiniog y filltir
- Atodiad teithwyr - 5 ceiniog y filltir

### Lwfans Cynhaliaeth

Y gyfradd ddyddiol uchaf yw £28 ac mae’n cwmpasu cyfnod o 24 awr, ac mae modd ei hawlio am unrhyw bryd o fwyd sy'n berthnasol, o ddangos derbynneb/derbynebau.

Does dim modd hawlio diodydd alcoholaidd.

### Aros Dros Nos

Y lwfansau uchaf am aros dros nos yn Llundain yw £200 a £95 mewn mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra'ch bod chi ar ddyletswydd gymeradwy.

## ATODLEN 4

## Cydymffurfio

• Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi ar wefan y Cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ('Cofnod o Daliadau i Aelodau') heb fod yn hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Er budd tryloywder, bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer pob penodiad gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei lenwi gan aelodau etholedig.

Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor:-

Cydnabyddiaeth Ariannol a Lwfansau ar gyfer Aelodau

• Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifyddion swydd ar gyfer deiliaid swyddi cyflog uwch, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

Mae modd dod o hyd i'r rhain yn Rhan 8 o Gyfansoddiad y Cyngor – Disgrifiadau Swydd yr Aelodau:- Cyfansoddiad y Cyngor

• Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor restr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r rhestr yn cyfeirio ati.

• Bydd yr awdurdod yn anfon copi at Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r rhestr yn cyfeirio ati.

Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor:-

Cydnabyddiaeth Ariannol a Lwfansau ar gyfer Aelodau

• Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau neu aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y cabinet a phwyllgorau, a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae ceisiadau ad-dalu aelodau neu aelodau cyfetholedig yn berthnasol iddyn nhw.

• Bydd yr awdurdod yn gwneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol, sy'n cael eu paratoi gan aelodau, ar wefan y Cyngor. Mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yma ar wefan y Cyngor: - Gwybodaeth Cynghorwyr

• Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu unigolyn i gyflenwi am absenoldeb teuluol, bydd yn hysbysu'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r manylion – o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad – fydd yn cynnwys teitl y swydd benodol honno a hyd y cyflenwi.